**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18fed Hydref 2010 yn Siambr y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc yr Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); Ll G Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol); S Jones (Ymgynghorydd Cydraddoldeb); G Jones (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

Cyn dechrau'r cyfarfod hysbyswyd yr Aelodau ei fod wedi bod yn amser trist i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth yn ddiweddar. Bu farw cyn-gynghorydd Sir Ddinbych David Jones MBE a Derrick Williams, diffoddwr tân o Flaenau Ffestiniog. Safodd Aelodau a Swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o barch.

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

2 DIWEDDARIAD AR SEFYLLFA'R IS-GADEIRYDD

2.1 Rhoddodd y Clerc wybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â sefyllfa'r Is-gadeirydd. Roedd Aled Morris Jones wedi ei wahardd dros dro rhag bod yn gynghorydd am reswm cyfansoddiadol. Doedd yr achos ddim yn effeithio'r Awdurdod Tân. Bydd A M Jones yn dychwelyd, heb ragfarn, ym mis Rhagfyr wedi iddo gwblhau'r cyfnod gwaharddiad o bedwar mis. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cytuno y byddai'r Cadeirydd yn parhau gyda'i dyletswyddau arferol. Petai'r Cadeirydd ddim ar gael byddai'n gofyn i Aelodau ddirprwyo ar ei rhan.

2.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21AIN MEHEFIN 2010

3.1 Cyflwynwyd y fersiwn Saesneg o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin er cymeradwyaeth. Oherwydd gwall argraffu ar y fersiwn Gymraeg byddai'r cofnodion hyn yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod er cymeradwyaeth.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r fersiwn Saesneg o'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cynghorydd S Frobisher a'r Cynghorydd A M Jones rhwng y 21ain Mehefin a 8fed Hydref 2010 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 **Peiriannau Ysgol Ac Esgynlawr (Peiriannau ALP)**

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am benderfyniad gan yr Awdurdod ynglŷn â dylid cadw'r safon presenoldeb o 20 munud ar gyfer peiriannau ALP neu godi'r safon i 30 munud yn unol ag argymhelliad y Panel Gweithredol ar 10fed o Fai 2010.

6.2 Mae gan y Gwasanaeth bedwar peiriant ALP ar hyn o bryd sydd wedi eu lleoli ym Mangor, Llandudno, Y Rhyl a Wrecsam er mwyn cwrdd â'r safon presenoldeb o 20 munud a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2006 er mwyn cynnwys yr ardaloedd risg perthnasol. Bydd y peiriant ALP a leolir yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei oes yn 2012.

6.3 Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin, gwahoddwyd yr holl Aelodau i gyfarfod ar 3ydd Medi a darparwyd gwybodaeth helaeth am ddefnydd, cymhwysiad a lleoliadau'r peirannau. Atgoffwyd Aelodau mai penderfynu ar y safon presenoldeb oedd angen ac nid lleoliadau'r peiriannau. Nodwyd nad oes safon genedlaethol ar gyfer presenoldeb peiriant mewn digwyddiad - ac mai Gogledd Cymru benderfynodd ar y safon 20 munud yn y gorffennol.

6.4 Cafwyd esboniad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân am sut yr ariannir peiriant newydd. Mae angen £50,000 y flwyddyn dros 20 mlynedd er mwyn talu'r gost o fenthyg y £600,000 sydd ei angen i brynu peiriant newydd. Mae'r costau cynnal a chadw yn ychwanegol at y ffigwr hwn.

6.5 Cyfrannodd yr Aelodau fel â ganlyn i'r drafodaeth:

6.6 Atgoffodd y Cynghorydd M Ll Davies Aelodau ynglŷn â'r newidiadau i ddeddfwriaeth ers i'r mater hwn gael ei ystyried diwethaf. Perchnogion yr adeiladau sy'n gyfrifol am sicrhau fod adeiladau yn ddiogel a bod ganddynt allanfeydd tân addas. Teimlai'r Cynghorydd fod y peiriant ALP yn cael ei anfon i ddigwyddiad yn hwyrach na'r prif beiriannau ac felly erbyn i'r peiriant ALP gyrraedd byddai unrhyw berson fyddai'n gaeth wedi ei achub mewn modd arall. Cafwyd cadarnhad gan yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y gwahanol Reoliadau Tân ac Adeiladau yn rhoi'r cyfrifoldeb ar berchnogion i gynnal a chadw adeiladau.

6.7 Teimlai'r Cynghorydd Barratt gan nad oedd y peiriant ALP yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, ni ddylid prynu peiriant newydd ond yn hytrach lleoli'r tri pheiriant ALP oedd yn weddill mewn safleoedd addas i fedru cyrraedd pob ardal. Gofynnodd y Cynghorydd Thomas os oedd posib parhau i ddefnyddio'r peiriant ALP gan nad oedd wedi ei ddefnyddio'n ormodol yn y gorffennol. Cafwyd cadarnhad gan Swyddogion fod y peiriant yn eithriadol dechnegol ac yn seiliedig ar ganllawiau'r gwneuthurwr 20 mlynedd yw uchafswm bywyd y peiriant.

6.8 Lleisiodd y Cynghorydd P C Evans ei bryderon am y cynigiad. Er ei fod yn cydnabod fod gwahanol reoliadau tân ac adeiladau wedi eu cyflwyno yn y blynyddoedd diwethaf, gan fod Gogledd Cymru yn ardal ddaearyddol mor eang, teimlai byddai gostwng y nifer o beiriannau ALP i dri yn achosi problemau yn enwedig os fyddai un o'r peiriannau ddim yn weithredol am ba bynnag reswm. Esboniodd y Prif Swyddog Tân na fyddai gostyngiad ym mherfformiad y gwasanaeth wrth gynyddu amser presenoldeb y peiriant ALP i 30 munud.

6.9 Barn y Cynghorydd J V Owen, fel aelod o'r Panel Gweithredol a oedd wedi derbyn gwybodaeth helaeth am y peiriannau ALP, oedd byddai'n well gwario'r arian ar sicrhau fod diffoddwyr tân yn gallu cyrraedd at danau ymhob tref a phentref ar draws Gogledd Cymru. Teimlai'r Cynghorydd na fyddai peiriant ALP yn gallu cyrraedd llawer o ardaloedd Gogledd Cymru.

6.10 Dywedodd y Cynghorydd Knightly fod cynghorau tref Llandudno a Bae Colwyn wedi mynegi pryder am y mater a'i fod hefyd wedi ei drafod ym Mhrif Bwyllgor Craffu Cyngor Conwy.

6.11 **PENDERFYNWYD, yn dilyn trafodaeth fanwl ac o bleidlais fwyafrifol, i fabwysiadu safon presenoldeb 30 munud ar gyfer peiriannau ac ysgol ag esgynlawr ar draws ardal y Gwasanaeth.**

6.12 Pleidleisiodd tri Aelod yn erbyn y penderfyniad. Gofynnodd y Cynghorydd P C Evans fod ei anghytundeb ef â'r penderfyniad yn cael ei gofnodi.

7 TROSGLWYDDO PERCHNOGAETH ASEDAU'R DIMENSIWN NEWYDD

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am gytundeb i drosglwyddo Asedau'r Dimensiwn Newydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ddyddiad i'w gytuno yn y dyfodol.

7.2 Mae'r asedau sydd wedi eu darparu gan y Llywodraeth a'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru yn cynnwys dwy Uned Ymateb i Ddigwyddiad a Phwmp Cyfaint Uchel yn ogystal â'r offer stoc ac ategol sy'n mynd gyda'r cerbydau yma. Mae gwerth yr asedau yma yng Ngogledd Cymru dros £1m. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cael cyfle i drosglwyddo'r asedau yn y modd yma ac maent wedi cydweithio ar y rhaglen.

7.3 Roedd gan rai Aelodau bryderon am yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr ac os fyddai'n effeithio safbwynt y Cynulliad, gofynnwyd a dylid aros tan y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod cyn gwneud penderfyniad. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod y cytundeb o ganlyniad i drafodaethau manwl a helaeth a'i fod y cytundeb gorau posib o ran lleihau risg i'r Awdurdod. Pwysleisiwyd hefyd na fyddai'r cytundeb yn cael ei arwyddo tan yn hwyrach yn y flwyddyn ac ar hyn o bryd doedd ond angen i Aelodau benderfynu ar drosglwyddiad yr asedau.

7.4 Teimlai Aelodau eraill ei fod yn hanfodol fod yr Awdurdod yn derbyn y Cytundeb yn enwedig ar ôl clywed cyngor y Prif Swyddog Tân. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc hefyd, o safbwynt cyfreithiol, fod y Cytundeb yn cynnig llawer o amddiffyniad a'i fod yn ddogfen `ddiogel'.

7.5 **PENDERFYNWYD**

(i) **nodi cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) cytuno i drosglwyddiad perchnogaeth yr asedau Dimensiwn Newydd a'r gofynion canlynol:**

- **arwyddo Cytundeb Trosglwyddo Asedau.**
- **arwyddo'r Cytundeb Rheoli Galluoedd Tymor Hir.**
- **cynnal yr Asedau fel eu bod yn ateb y diben ac ar gael i'w defnyddio yn y DU.**
- **sicrhau fod personél gweithredol yn gymwys i ddefnyddio'r offer.**

8 CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2009-12

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gael cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2009-12.

8.2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub baratoi, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a chyhoeddi'n flynyddol Cynllun Lleihau Risg a/neu gynllun gweithredu a chynllun gwella. Yn dilyn derbyn canllawiau gan y Cynulliad, mae'r dogfennau hyn wedi'u cyfuno i un ddogfen.

8.3 Gorffennodd y cyfnod ymgynghoriad ar yr amcanion gwella/lleihau risg drafft ym mis Medi. Roedd y Cynllun Cyfunol nawr yn ei drydydd ddrafft ac wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn ogystal â'r ystadegau yn cael eu diweddaru fel bo'r angen. Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Medi, rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd a phenderfynwyd argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo cynnwys y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2011-12 a oedd wedi'i ddosbarthu i'r holl Aelodau.

8.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella a chytuno i'w gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol o 31 Hydref 2010**

9 GWERTHUSO SWYDDI

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu'r Aelodau o ganlyniadau a chasgliadau'r prosiect gwerthuso swyddi. Roedd y broses yn cynnwys holl staff yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n gweithio ar amodau Llyfr Gwyrdd y Cyd Gyngor Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel gweithwyr cefnogi. Mae'r grŵp yn cynnwys rolau diogelwch tân cymunedol fel Ymarferwyr a'r tîm Cefnogi Diogelwch yn y Cartref.

9.2 Ymgymerodd y Gwasanaeth ag Archwiliad Cyflog Cyfartal yn 2007 ac fel rhan o argymhellion cynnar yr Archwiliad, arweiniwyd y Gwasanaeth gan ei ymgynghorwyr cyfreithiol i ail werthuso'r broses werthuso swyddi.

9.3 Roedd y cyrff cynrychiadol wedi bod yn rhan o'r broses o'r dechrau a sicrhawyd Cytundeb ar y cyd gyda'r cyrff cynrychiadol gan ymgorffori Gwerthuso Swyddi a Pholisi Cyflog, Strwythur Cyflog a Graddio newydd a dyddiad gweithredu yn effeithiol o 1af Ebrill 2009. Roedd y cyrff cynrychiadol hefyd wedi bod yn rhan o'r gwrandawiadau apêl ym mis Medi. Roedd y cyrff cynrychiadol wedi derbyn cyngor gan eu hymgynghorwyr tâl a chyfle cyfartal a gofynnwyd i'w haelodau bleidleisio ym mis Gorffennaf a chafwyd canlyniad cadarnhaol.

9.4 Hysbyswyd y Panel Gweithredol ar 16eg Tachwedd 2009, bod darpariaeth ychwanegol o £169,125 wedi ei neilltuo i gwrdd â'r cynyddiadau rhagfynegwyd ac ôl-daliadau. Yn dilyn cwblhau'r broses, gallai'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons gadarnhau bod digon o arian yn y ddarpariaeth i gwrdd â'r ymrwymiadau presennol.

9.5 Gofynnodd y Cynghorydd Griffith am wybodaeth ynglŷn â faint o swyddogion fyddai'n derbyn llai o gyflog a faint o swyddogion fyddai'n derbyn cynnydd yn eu cyflog, yn ogystal â'r ffigyrau. Cadarnhawyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei anfon at y Cynghorydd Griffith yn dilyn y cyfarfod.

9.6 Llongyfarchwyd swyddogion gan y Cynghorydd M Ll Davies am gwblhau'r gwerthusiad swyddi ac am gael cytundeb ar y cyd gyda'r cyrff cynrychiadol.

9.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) cydnabod y broses helaeth a ymgymerwyd a'r canlyniad llwyddiannus; a**

**(ii) nodi goblygiadau ariannol yr ymarfer, ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r dyfodol.**

10 ASESIAD CORFFORAETHOL RHAGARWEINIOL

10.1 Croesawyd Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod, roedd wedi bod yn rhan o'r tim fu'n gweithio ar yr asesiad corfforaethol.

10.2 Cyflwynwyd yr Asesiad Corfforaethol gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân er mwyn i'r Aelodau gael ei weld cyn iddo gael ei gyhoeddi. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae nawr yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Gwneir hyn ar ffurf Asesiad Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych am yn ôl ar gyfer pob Awdurdod Tân ac Achub.

10.3 Gofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies am eglurhad ynglŷn â'r argymhelliad am "Mynd i'r afael â'r ffaith bod y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen". Cafwyd cadarnhad gan Lisa Williams ei fod wedi ei grybwyll fel mater allai achosi problem, fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod fod cael dau bwyllgor gwahanol yn monitro'r perfformiad yn gallu bod yn gadarnhaol.

10.4 Teimlai'r Clerc fod y pwyllgor archwilio wedi setlo'n dda gyda chyfarfodydd rheolaidd tair gwaith y flwyddyn. Nid oedd y Clerc yn ystyried dyblygu'r monitro perfformiad yn broblem. Diolchodd i Sandra Forrest a'i chydweithwyr o'r Adran Archwilio am eu mewnbwn i'r pwyllgor ac am yr hyfforddiant a ddarparwyd i Aelodau.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi**

(i) **cynnwys yr asesiad corfforaethol rhagarweiniol;**

(ii) **fod y ddogfen yn cael ei chyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn niwedd mis Tachwedd 2010.**

11 FFIGURAU TERFYNOL DROS DRO 2010-2011

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau am amcangyfrif o'r ffigurau terfynol dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011.

11.2 Mae'r tanwariant amcanol yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn ac efallai bydd yn ffurfio rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2011/12 er mwyn helpu i atgyfnerthu'r gyllideb flwyddyn nesaf. Argymhellodd y Trysorydd fod Aelodau'n nodi'r tanwariant yn unig am y tro.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcanol.**

12 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

12.1 Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i gyd-bartïon yr Awdurdod.

12.2 **PENDERFYNWYD**
**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig;**
**(ii) nodi'r Cyd-bartïon;.**
**(iii) nodi'r benthyciad newydd.**

13 CYFLWYNIAD ATAL TÂN

13.1 Croesawyd Helen Prior, Prif Weithredwr Atal Tân i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar "Gwneud y gorau o adnoddau prin - sut gall Atal Tân gefnogi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru".

13.2 Mae Atal Tân yn elusen sy'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, ond sydd hefyd yn ymwneud â'r sector gwirfoddol. Mae Atal Tân yn casglu tystiolaeth ac yn rhannu arfer da, codi ymwybyddiaeth a chefnogi cydweithio rhwng partneriaid.

13.3 Mae gwaith Atal Tân yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:

- cyhoeddi adroddiad diogelwch Atal Tân, sy'n cynnwys casgliadau o'r Arolwg unigryw a wnaed ar Ddiogelwch Tân yng Nghymru ynghyd a gwaith ymchwil perthnasol a wnaed ar ddiogelwch tân yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt;
- cynhyrchu adnoddau diogelwch tân ar gyfer sefydliadau a'u cwsmeriaid, argraffu taflenni ayb ar sut i adnabod peryglon tân, a rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer cwsmeriaid;
- gwaith ymchwil gyda Chymdeithasau MIND lleol a Thimau Alcohol a Chyffuriau yn y Gymuned yng Nghymru. Mae hyn wedi galluogi Atal Tân i ddeall, o safbwynt sefydliadol a defnyddwyr y gwasanaethau hyn, y ffyrdd gorau i ddarparu cyngor diogelwch tân a sut y cynigir y gwasanaeth ar gyfer y grwpiau hyn;
- cyfres o ddigwyddiadau yn y gymuned - bu'n gyfle i drin a thrafod gwahanol ffyrdd o adnabod a gweithio gyda'r bobl hynny sy'n fwy tebygol o ddioddef oherwydd tân. Wrth ddod ag ystod o unigolion a sefydliadau o wahanol gefndiroedd at ei gilydd, y bwriad oedd cyfnewid gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da, a rhannu atebion i broblemau.

13.4 Cynlluniau Atal Tân ar gyfer y dyfodol yw:

- ymestyn y gwaith ymchwil i berygl tân a'r rhai sy'n agored i niwed;
- mwy o waith ar yr Arolwg Agweddau i gynorthwyo'r gwaith o greu strategaethau mwy addas ac effeithiol ar gyfer darparu diogelwch tân;
- datblygu a lansio ffurflen cyfeireb ar-lein ar gyfer asiantaethau er mwyn cynorthwyo'r Gwasanaethau Tân i dargedu a darparu gwybodaeth diogelwch tân i'r rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl;
- parhau â'r gwaith o adeiladu perthynas a rhwydwaith, yn enwedig o fewn meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, a phlant a theuluoedd;
- mwy o waith gyda chymunedau ac oddi fewn iddynt (boed yn ddaearyddol neu o ddiddordeb) i godi ymwybyddiaeth, adnabod anghenion a rhannu atebion.

13.5 **PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad.**

14 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu'r Awdurdod fod aelod annibynnol newydd wedi ei benodi i Bwyllgor Safonau yr Awdurdod.

14.2 Yn dilyn cyfweliadau a gynhaliwyd ar 1af Medi, cytunwyd i benodi David Morris yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

14.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

15 CYLLIDEB GENEDLAETHOL - STRATEGAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

15.1 Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am Strategaeth Effeithlonrwydd a Gwella Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r strategaeth yn sôn am y cyd-destun ar gyfer gosod y gyllideb. Ni fydd yn effeithio'r Awdurdod dros y misoedd nesaf, ond mae'n debyg gwnaiff ei bwysigrwydd gynyddu yn y blynyddoedd nesaf.

15.2 Soniodd y Trysorydd wrth Aelodau am ddyddiadau allweddol ynglŷn â'r gyllideb. Cyhoeddir yr adolygiad gwariant cynhwysfawr ar yr 20fed Hydref ac yna cyhoeddiad cyllideb y Cynulliad ar 17eg Tachwedd. Cyhoeddir setliad llywodraethau lleol ar 23ain Tachwedd. Mae'n ddyletswydd ar y Cynulliad i osod ei gyllideb derfynol yn Ionawr gyda'r setliad llywodraeth leol i ddilyn yn fuan wedi hynny.

15.3 Mae cyfarfod arbennig o'r Awdurdod wedi ei drefnu ar gyfer 10 Rhagfyr i drafod y gyllideb cyn cyflwyno'r gyllideb ddrafft i'r Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr 2010. Bydd angen cwblhau a chadarnhau cyllideb yr Awdurdod Tân erbyn y dyddiad terfyn o 15fed Chwefror 2011.

15.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 COFNODION CYFARFODYDD Y PANEL GWEITHREDOL

16.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf a 20fed Medi er gwybodaeth.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**